# PAPURAU BUSNES

## 17 Hydref 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 10 Hydref 2000

**NDM408 Mick Bates (Sir Drefaldwyn);**

Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod y cysylltiad rhwng maeth a'r gallu i ddysgu, ac yn amodol ar gael cadarnhad cyfreithiol, mae'n ymroi i ailgyflwyno llaeth am ddim mewn ysgolion i bob plentyn yng Nghyfnod Allweddol Un o fis Ionawr 2001 ymlaen.

**NMD409 Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn pwysleisio rôl ganolog Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wrth adfywio'r economi Gymreig ac mae'n benderfynol y dylid defnyddio'r cronfeydd llawn yn effeithiol a heb oedi pellach.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw am weithredu brys er mwyn cyflawni'r canlynol:

- Cytundeb llawn ar set o Gynlluniau Rhanbarthol ac Is-ranbarthol a fydd yn atal gorgyffwrdd difrifol wrth weithredu pob cam ar wahân yng ngwahanol Becynnau'r Rhaglenni, gan sicrhau ar yr un pryd nad oes unrhyw fesurau y mae arnynt angen Cynllun Gweithredu Rhanbarthol neu Is-ranbarthol nad ydynt wedi'u cynnwys.
- Canllawiau cadarn ar rannu'r adnoddau sydd ar gael rhwng Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol, Is-ranbarthol a Lleol.
- Diffiniad clir o gyfrifoldeb y Partneriaethau Lleol wrth integreiddio'r projectau perthnasol a gynigir gan Bartneriaethau Rhanbarthol ac Is-ranbarthol a'r ystod o brojectau lleol penodol mewn cynllun lleol cydlynol, ac wrth flaenoriaethu'r projectau er cyfarwyddyd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn:

- Cydnabod bod amcangyfrif cadarn o'r holl alw am 'gyllid cyfatebol' sector cyhoeddus gan bartneriaethau a arweinir gan gyrff y llywodraeth neu awdurdodau lleol yn rhagofyniad hanfodol ar gyfer pennu'r gyllideb.
- Cyfrif, os bydd y gwahanol raglenni'n dilyn y gyllideb o flwyddyn i flwyddyn a gytunwyd gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, ac yn mabwysiadu proffil unffurf ar gyfer

gwario yn ystod y cyfnod a ganiateir, na fydd trosglwyddo Cronfeydd Ewropeaidd yn unol â'r adolygiad o wariant yn bodloni cyfanswm dyraniad y cronfeydd hyn gan WEFO.
- Penderfynu parhau i roi pwysau ar y Trysorlys i drosglwyddo 100% o'r arian y mae ei angen yn ychwanegol i'r Bloc Barnett.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i sicrhau nad oes gan yr Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd unrhyw gyfrifoldeb portffolio arall, er mwyn sicrhau cynnydd cyflym wrth weithredu'r Rhaglenni Strwythurol.

**NMD410 Andrew Davies (Swansea West);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 13.2, yn ethol Jocelyn Davies (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru).

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 12 Hydref 2000**

**NDM408**

**1. Gareth Jones (Conwy);**

- Gosod "a chymeradwyo'r canllawiau gan y pwyllgorau addysg ac iechyd" ar ôl "cadarnhad cyfreithiol" a chyn "mae'n ymroi".

**2. Gareth Jones (Conwy);**

- Dileu "o fis Ionawr 2001 ymlaen" a gosod y canlynol ar ddiwedd y cynnig:
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod y dylai'r canllawiau hyn gymryd i ystyriaeth amser athrawon, maeth, yr angen am gyfleusterau storio priodol a dewis rhieni.
- Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn annog yr Awdurdodau Lleol i wneud defnydd llawn o Gynllun Llaeth Ysgolion yr UE a fyddai'n cynnig llaeth am ddim i blant o dan bump, a chymhorthdal ar gyfer llaeth i blant ysgolion cynradd.